

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Y DIWEDDARAF: CAETHWASIAETH FODERN A MASNACHU POBL

Blwyddyn Ariannol: 2023/24

1. Trosolwg

- 1.1 Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwario tua £232 miliwn y flwyddyn gyda sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector ar y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Cyfrifoldeb y Cyngor yw rheoli'r arian yma mewn modd effeithlon ac effeithiol i ategu Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn unol â'r fframwaith rheoleiddio, gan gynnwys Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.2 Mae Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi yn cynnwys 12 ymrwymiad gan gynnwys mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Bydd y datganiad yma'n amlinellu'r camau gweithredu mae'r Cyngor wedi eu cymryd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn digwydd yn ei fusnes na'i gadwyni cyflenwi.
- 1.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ac ni fydd yn goddef unrhyw enghraifft ohono o fewn ei gadwyn gyflenwi.

2. Beth yw caethwasiaeth fodern?

- 2.1 Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn mynd yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Mae modd iddo ddigwydd ar sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl. Mae pob un o'r enghreifftiau yma'n amddifadu rhyddid unigolion ac yn camfanteisio arnyn nhw er budd personol neu fasnachol.
- 2.2 Mae dioddefwyr yn cael eu masnachu ledled y byd am ychydig bach o arian, neu ddim arian o gwbl, ac mae modd iddyn nhw gael eu cludo i mewn i'r DU. Mae modd iddyn nhw gael eu gorfodi i weithio yn y fasnach ryw, caethwasanaeth domestig, llafur gorfodol ac ymgymryd â gweithgaredd troseddol. Mae amaethyddiaeth, hamdden, lletygarwch, arlwyo, glanhau, gwaith dillad, adeiladu a gweithgynhyrchu oll ymhlith y sectorau risg uchel ar gyfer caethwasiaeth fodern.

3. Ein hymrwymiad a'n cyfrifoldeb

- 3.1 Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb fel cyflogwr i fod yn effro i'r achosion posibl o gaethwasiaeth fodern ac i roi gwybod am achosion neu bryderon o'r fath i'r cyrff perthnasol.
- 3.2 Yn rhan o'i brosesau tendro a chontractio, bydd y Cyngor yn ceisio sicrwydd gan ddarpar gyflenwyr bod ganddyn nhw brosesau addas a chadarn ar waith i

liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern yn y sefydliad. Bydd y Cyngor yn disgwyl i gyflenwyr fod yn gyfrifol am ofyn am sicrwydd tebyg gan eu cadwyni cyflenwi eu hunain.

3.3 Mae'r strategaethau a pholisïau allweddol sy'n cefnogi'r datganiad Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys:

- [Comisiynu, Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a Strategaeth Rheoli Contractau](#)
- [Trefniadau Chwythu'r Chwiban](#)
- [Polisi Diogelu Corfforaethol](#)

3.4 Trwy ddefnyddio Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru (Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi) ar draws ei gadwyn gyflenwi, bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei gyflenwyr yn effro i'r ymrwymiad i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

3.5 Yn unol ag Ymrwymiad 7 Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru (Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi), bydd y Cyngor yn asesu risg ein gwariant er mwyn nodi a mynd i'r afael â materion caethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol, ac arfer cyflogaeth anfoesebol. Rydyn ni yn:

- Cynnal adolygiadau o wariant a chynnal asesiad risg yn seiliedig ar y canfyddiadau, i gydnabod cynnyrch a/neu wasanaethau lle mae risg o gaethwasiaeth fodern a/neu arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesebol yn y DU a thramor.
- Gweithio gyda'n gyflenwyr i wirio unrhyw achosion o arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesebol os bydd unrhyw broblemau yn dod i law.
- Monitro arferion cyflogaeth ein cyflenwyr risg uchel.

4. Ein cadwyni cyflenwi

4.1 Mae gan y Cyngor broses dendro i sicrhau bod ei gyflenwyr uniongyrchol yn effro i'w ymrwymiad o ran mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a'u bod nhw'n deall eu dyletswyddau yn gyflenwyr neu'n gontractwr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor.

4.2 Mae gan y Cyngor ddiwydrwydd dyladwy wrth ystyried sefydlu partneriaeth gyda chyflenwr newydd a bydd yn adolygu'r rhestr o gyflenwyr cyfredol yn flynyddol yn rhan o ei drefniadau rheoli contract.

5. Hyfforddiant i weithwyr

5.1 Mae Modiwl Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol cyffredinol eisoes yn bodoli ac mae'n cynnwys materion caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, ac mae disgwyl i bob aelod o staff y Cyngor ei gwblhau.

6. Dyletswydd i hysbysu

6.1 Mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd penodol i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw unigolyn yng Nghymru neu'n Lloegr y maen nhw'n amau ei fod yn gaethwas neu sydd wedi goddef troseddau Masnachu

Pobl. Mae'r 'Ddyletswydd i Hysbysu' wedi'i nodi yn Adran 52 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n berthnasol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

6.2 Mae arweiniad ynglŷn â'r ddyletswydd i hysbysu ar gael yma: [Modern slavery: duty to notify - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/modern-slavery-duty-to-notify)

6.3 Mae'r ddyletswydd yma'n cydfynd â'r ddyletswydd sydd gan staff i roi gwybod am unrhyw bryderon o ran diogelu mewn perthynas â phlentyn neu oedolyn sydd mewn perygl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Defnyddiwch yr wybodaeth isod os ydych chi'n pryderi am ddiogelwch rhywun:

Oedolion:

01443 425003

Oedolionmewnperyl@rctcbc.gov.uk

Plant:

01443 425006

CarfanGCC@rctcbc.gov.uk

Ar ôl 5.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus ffoniwch y Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau ar 01443 743665 neu e-bostio:

CarfanArDdyletswyddGwaithCymdeithasol@rctcbc.gov.uk.

Os ydych chi o'r farn bod unigolyn mewn perygl uniongyrchol o niwed arwyddocaol, ffoniwch '999'.

6.4 Mae'r Cyngor wedi rhoi poster i bob cyflenwr.

7. Beth mae'r Cyngor wedi ei wneud?

7.1 Rydyn ni wedi:

- Llofnodi Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi'.
- Penodi'r Cyngorydd Tina Leyshon, Aelod o'r Cabinet ar faterion Newid yn yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol yn Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesebol.
- Parhau â'r broses o adolygu ein cadwyni cyflenwi i nodi meysydd risg uchel.
- Cwblhau adolygiad o ddogfennaeth dendro'r Cyngor a'i diweddarau i sicrhau ei bod yn cyfeirio at faterion caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.
- Cwblhau adolygiad o Delerau ac Amodau cyffredinol y Cyngor i sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses gaffael.
- [Canllaw i Fynd i'r Afael â Chaethwasiaeth Fodern yn ein Cadwyni Cyflenwi](#)

7.2 Mae camau gweithredu i wella ymhellach wedi'u cynnwys yn ein trefniadau gweithredol cynllunio busnes.

8. Cymeradwyo'r datganiad

8.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cymeradwyo'r datganiad yma a bydd yn ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.

Wedi'i lofnodi gan



Richard Evans
Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda
Cynon Taf

Wedi'i lofnodi gan



Y Cyngorydd Leyshon
Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a
Chyflogaeth Foesegol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda
Cynon Taf